



Nadolig Plentyn yng Nghymru: Postmyn ac Eira

Flynyddoedd ar flynyddoedd ar flynyddoedd yn ôl, pan oeddwn fachgen, pan oedd bleiddiaid yng Nghymru, ac adar lliw peisiau gwlanen-goch yn 'sgubo heibio'r bryniau oedd ar ffurf telynau, pan ganem, pan ymdrybaeddem ddydd a nos yn aroglau llaith parlwr-ffrynt-ar y-Sul ogofâu, pan erlidiem, gydag esgyrn gên diaconiaid, y Saeson a'r eirth, cyn bod modur, cyn bod olwyn, cyn bod ceffyl wyneb duges, pan farchogem heb gyfrwy y bryniau hapus, dwl, roedd hi'n eira, eira o hyd. Ond yma, meddai bachgen bach: 'Roedd hi'n bwrw eira llynedd, hefyd. Fe wnes i ddyn eira ac fe chwalodd fy mrawd i e, ac fe fwres i 'mrawd i, ac wedyn fe gawsom ni de.'

'Ond nid yr un eira oedd e!' meddaf. "Yn ogystal â chael ei ysgwyd o fwcedi gwyngalch i lawr o'r awyr, fe heidiai allan o'r ddaear, fe nofiai, fe ddihangai o freichiau a dwylo a chyrrff y coed; fe dyfai'r eira dros nos ar doeau'r tai fel tadcu o fwsogl pur, gan fân-batrymu'r waliau fel eiddew a disgyn ar y postman a agorai'r lliidiart, fel storm fud, ddi-deimlad o gardiau Nadolig gwyn, toredig.'

'Oedd 'na bostmyn bryd hynny, hefyd?'

'Gyda llygaid dyfrllyd a thrwynau ceirios ar draed rhewllyd-ar-led a grensiai at y drysau gan guro'n ddewr â'u menig. Ond yr unig sŵn a glywai'r plant oedd clychau'n canu.'

'Beth? Pan gnociai'r postman rat-a-tat-tat fe ganai'r drysau?'

'Na, clychau o'r tu mewn iddynt a glywai'r plant.'

'Taranau glywa i, weithiau, nid clychau, byth.'

'Roedd 'na glychau eglwys, hefyd.'

'Y tu mewn iddyn nhw?'

'Na, na, na, yn nhyrau ystlum-ddu gwyneira'r eglwysi, yn cael eu tynnu gan esgobion a storïau. Ac fe ganent eu newyddion dros dref mewn rhwymau, dros ewyn-wedi-rhewi y bryniau powdr a hufen iâ, dros glecian y môr. Roedd fel pe bai pob eglwys yn bwhwman eu gorfoledd o dan fy ffenest, a'r ceiliogod-gwynt yn clochdar eu Nadolig ar ein perth ni.'